**Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru NWR 01-00(min)**

## Nodyn o'r Cylchdaith Datblygu Cynaliadwy

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 11 Chwefror 2000 |
| **Amser**: | 10.00am i 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Gareth Jones, Cadeirydd | Conwy |
| Christine Humphreys | Gogledd Cymru |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Bob Macey | Pennaeth, Adran yr Amgylchedd |
| Lisa Dobbins | Uned Datblygu Cynaliadwy, Adran yr Amgylchedd |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Barc Cenedlaethol Eryri am gael defnyddio'r lleoliad ac i Trawsnewid, Coed Cymru a'r Parc Cenedlaethol am eu harddangosfeydd. Roedd ymddiswyddiad yr Ysgrifennydd Cyntaf a digwyddiadau dilynol wedi golygu bod nifer o aelodau'r Pwyllgor yn gorfod bod yng Nghaerdydd. Serch hyn, roedd pedwar aelod o'r Pwyllgor yn bresennol, a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y lleill. Er nad oedd cworwm yn y cyfarfod, byddai'r aelodau a'r swyddogion oedd yn bresennol yn sicrhau y byddai negeseuon y dydd yn cael eu cyfleu i'r Cynulliad ac yn cael eu cynnwys yn yr ymarfer ymgynghori.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad byr gan Lisa Dobbins ynglþn â chefndir Cynllun Datblygu Cynaliadwy drafft y Cynulliad a'r broses ymgynghori. Yna cafwyd cyflwyniadau byr gan:

| | |
|---|---|
| Lisa Thomas | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Merfyn Williams | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| Andrea Collins | Cadwch Gymru'n Daclus |
| Neil Crumpton | Cyfeillion y Ddaear Cymru |
| Jane O'Brian | Canolfan Cyngor Ynni |
| Margaret De Wolf | Reduce the Use |
| Dilwyn Jenkins | Dulas Cyf. |
| Mike Palmer | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Judie Wong | Black Environment Network |
| Aled Davies | Cyngor Gwynedd |
| Martin Eaglestone | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Huws | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Rory Francis | Cymdeithas Eryri |
| John Saunderson | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cymru |
| Dafydd Jarrett | NFU Cymru |
| Peter Garson | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| David Jenkins | Coed Cymru |
| John Farrar | Sefydliad Gwyddor Amgylcheddol, Prifysgol Bangor |
| Sheila Bunnel | Prosiect Addysg y Byd |
| Keith O'Brian | Trawsnewid |

Yn ogystal â'r negeseuon yn y cyflwyniadau ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, mynegwyd y pwyntiau canlynol:

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru -** roedd yn bwysig bod Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn adlewyrchu cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad yn eu gwaith. Roedd yn hanfodol egluro'r targedau a'r dangosyddion i'w mabwysiadu;
- **Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig -** dylai'r Cynulliad ystyried ariannu craidd Cyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn ei alluogi i gynnal gwaith hanfodol ar ddatblygu cynaliadwy. Mynegwyd pryder hefyd ynglþn â'r dangosyddion i'w dewis i fonitro'r cynllun a'r angen am ddiffiniad cyson o ddatblygu yn holl ddogfennau'r Cynulliad. Gellid defnyddio'r Pwyllgorau Rhanbarthol i arolygu cynnydd y cynllun;
- **Cadwch Gymru'n Daclus -** roedd barn pobl o'u hamgylchedd a datblygu cynaliadwy yn amrywio o gymuned i gymuned. Roedd datblygu cymunedol yn hanfodol felly er mwyn sicrhau bod y cynllun yn llwyddo;
- **Cyfeillion y Ddaear Cymru -** gallai generaduron sy'n cael eu gyrru gan y llanw a cherrynt y môr a ffermydd gwynt yn y môr ddarparu ynni adnewyddadwy heb effeithio ar fywyd gwyllt yn y môr, cychod neu bysgodfeydd, pe baent yn cael eu cynllunio a'u lleoli'n addas;
- **Reduce the Use -** pwysleisiodd bwysigrwydd economaidd busnesau bach. Nid oedd ffurfiau ardystio ac achredu oedd yn bodoli eisoes, yn addas ar gyfer busnesau bach iawn sy'n mabwysiadu egwyddorion cynaliadwy ac roedd angen trefn achredu llawer symlach;
- **Dulas Cyf**. - roedd y diwydiant offer ynni adnewyddadwy yn tyfu'n gyflym yng Nghymru ac roedd hi'n bosibl cyflawni'r nod o 5,000 o swyddi newydd yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2020 ond roedd angen rhagor o gefnogaeth gan y llywodraeth ganolog;
- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru -** roedd llwyddiant y cynllun Datblygu Cynaliadwy yn dibynnu ar gyfraniad y cyhoedd ac roedd gan y sector gwirfoddol swyddogaeth i annog hyn. Pe byddai unigolion a sefydliadau'n rhoi'r amser a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i lwyddiant y cynllun, roedd yn rhaid i'r Cynulliad ddangos ewyllys da ac ymrwymiad tuag at integreiddio;
- **Black Environent Network -** roedd angen i'r Cynulliad wneud ymrwymiad tuag at grwpiau ethnig yng Nghymru a'u hannog i fod yn gysylltiedig â datblygu cynaliadwy. Dylai strwythurau ariannu a thargedau gwario ystyried diffyg profiad grwpiau ethnig. Roedd gan wahanol grwpiau a chymunedau ethnig wahanol anghenion ac roedd angen cefnogaeth a hyfforddiant ar bob un i'w galluogi i fod yn rhan o ddatblygu cynaliadwy a gwella ansawdd eu bywyd;
- **Cyngor Gwynedd -** roedd swyddogion Agenda Leol 21 yng Ngwynedd yn gweithio i lunio cyswllt â'r sector gwirfoddol a busnesau bach. Byddai awdurdodau lleol a'u partneriaid yn croesawu arian craidd i gynorthwyo i ddatblygu Agenda Leol 21;
- **Cyngor Sir Ynys Môn -** dylai datblygu cynaliadwy fod yn gyfrifoldeb i bawb yng Nghymru, ac yn rhan hanfodol o fywyd. Dylai egwyddorion datblygu cynaliadwy fod wrth wraidd pob polisi a gweithredu ond nid oedd hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Roedd yn rhaid i bobl gyffredin ddeall y dangosyddion a'r targedau ar gyfer datblygu cynaliadwy, er y byddai'n anodd cyflawni hyn;
- **Parc Cenedlaethol Eryri -** roedd pobl yn camddeall ystyr datblygu cynaliadwy, ac roedd angen codi ymwybyddiaeth pobl ohono. Dylai'r Cynulliad ystyried sefydlu pwyllgor pwnc penodol i ddelio â datblygu cynaliadwy. Roedd y Parciau Cenedlaethol yn cynorthwyo i ariannu prosiectau cymunedol, ymarferol sy'n enghreifftiau o ddatblygu cynaliadwy;
- **Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cymru -** dylid sefydlu fforwm datblygu cynaliadwy er mwyn dod â'r rhai sydd â diddordeb a'r rhai sy'n rheoleiddio, ynghyd;

- **NFU Cymru -** byddai'r cynllun datblygu cynaliadwy yn effeithio ar fywoliaeth ffermwyr a dylid ystyried eu hanghenion. Roedd angen egluro diffiniad datblygu cynaliadwy a dylid gosod yr un pwyslais ar y themâu economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn y cynllun;
- **Y Comisiwn Coedwigaeth -** roedd y Cynulliad yn berchen ar lawer o goedwigoedd yng Nghymru a dylai eu rheoli fel enghraifft o ddatblygu cynaliadwy;
- **Coed Cymru -** roedd Cymru ar y blaen yn dechnolegol ar hyn o bryd ym maes prosesu nwyddau pren, a dylai ddatblygu hyn. Roedd trawsnewid pennau llifiau yn eitemau o werth uchel i brynwyr yn enghraifft o ddatblygu cynaliadwy;
- **Prifysgol Bangor -** roedd cynnwys yr amgylchedd, yr economi a'r gymuned o fewn datblygu cynaliadwy yn her ond cynaladwyedd amgylcheddol ddylai gael blaenoriaeth. Nid oedd twf a chynaladwyedd yn mynd law yn llaw oherwydd bod y ffactorau sydd eu hangen er mwyn sicrhau twf yn rhai cyfyngedig. Roedd angen i benderfyniadau awdurdodau lleol gael eu gwneud ar sail ehangach. Er enghraifft, roedd ffermydd gwynt yn gynaliadwy oherwydd eu bod yn darparu ynni adnewyddadwy, ond ni ddylai eu lleoliad wneud difrod i'r apêl i dwristiaid. Rhaid i'r rheolau a bennir gan reoleiddwyr dðr a phðer gydnabod anghenion cynaladwyedd;
- **Trawsnewid -** y rhan bwysicaf o'r cynllun adfywio yn Nhrawsfynydd oedd gofyn i'r gymuned beth oeddent yn ei ddymuno. Dylai'r un broses ddigwydd gyda'r cynllun Datblygu Cynaliadwy i Gymru. Roedd Trawsnewid wedi sicrhau adnoddau ar gyfer gwelliannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y gymuned a derbyn grantiau o amrywiaeth o ffynonellau. Fodd bynnag, nid oedd y rhaglenni ariannu tair blynedd arferol yn cynnig digon o sicrwydd. Dylid darparu cefnogaeth dros 10 neu hyd yn oed 20 mlynedd;

Yna agorodd y Cadeirydd y drafodaeth a mynegwyd y pwyntiau canlynol;

- **Morgan Parry, World Wildlife Fund -** nid oedd Cymru'n dilyn trywydd cynaliadwy. Byddai addysg yn bwysig iawn wrth ddatblygu dealltwriaeth fod gan cynaladwyedd ddimensiwn rhyngwladol. Er enghraifft, roedd mewnforio adnoddau i Gymru, megis pren neu gynnyrch amaethyddol, yn effeithio ar gynaladwyedd os oedd yn arwain at glirio coedwigoedd. Roedd yn rhaid i'r cynllun Datblygu Cynaliadwy gydnabod effaith ehangach gweithredoedd yng Nghymru;
- **Geraint George, Prifysgol Bangor -** croesawodd bennawd y ddogfen, "Dysgu i Fyw'n Wahanol" ac ymrwymiad y Cynulliad tuag at ddysgu am oes. Gofynnodd ble ddylai datblygu cynaliadwy cael ei gynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol ac roedd yn pryderu y gallai pwysau eraill ar y cwricwlwm ei wthio o'r neilltu;
- **Paul Williams, Dolen Cymru -** roedd fframwaith Agenda 21 yn cydnabod yr angen i ystyried dimensiwn rhyngwladol datblygu cynaliadwy. Dylai Cymru rannu ei harbenigrwydd ynglþn â datblygu cynaliadwy gyda'r wlad y mae wedi gefeillio â hi sef Lesotho;
- **David Heaf, YDCW Cangen Caernarfon -** cyfeiriodd at gynllun ffordd arfaethedig yr A497 rhwng Abererch a Llanystumdwy a fyddai'n cael ei ystyried gan archwiliwr cynllunio mewn ymchwiliad cyhoeddus ar 22 Chwefror. Roedd y cynllun yn codi pwyntiau ynglþn â'r cydbwysedd rhwng datblygu economaidd a chynaladwyedd amgylcheddol;
- **Mrs Rae Duffield, Cymdeithas Dwristiaeth Beddgelert -** dywedodd na ddylai datblygu cynaliadwy ddigwydd ar draul cyfleoedd gwaith. Roedd angen iddi fuddsoddi yn ei busnes er mwyn annog twristiaid i ymweld ond roedd cyfyngiadau cynllunio CADW ac Awdurdod y Parc

Cenedlaethol yn ei hatal rhag gwneud hyn;

- **Patricia Knox, Grðþ Tyfwyr Organig ac Amaeth Parhaol Gogledd Cymru -** dylid hyrwyddo marchnadoedd ffermwyr, cynlluniau blychau llysiau a mentrau tebyg a dylid gosod rhagor o bwyslais ar gynnyrch lleol ar gyfer marchnadoedd lleol. Byddai hyn yn cynorthwyo i ostwng nifer y lorïau ar y ffyrdd ac yn cynorthwyo'r economi lleol;
- **Michael Chown, (o Sustrans yn flaenorol) -** nid oedd yn bosibl cael twf a chynaladwyedd. Roedd angen i'r Cynulliad gael syniad clir o'i nod a'r ffordd ymlaen. Dylai'r Cynulliad ddatganoli penderfyniadau ynglþn â chynaladwyedd i awdurdodau lleol a chynghorau cymuned er mwyn i'r broses allu dechrau o'r gwaelod i fyny. Ni allai gael ei orfodi o'r haenau uchaf;
- **Dafydd Morris, Cyngor Bugeiliaid Ucheldir Cymru -** mynegodd bryder ynglþn â'r cynigion i alluogi pobl i gyrraedd cefn gwlad oherwydd yr effaith ar anifeiliaid fferm. Dylid cyfyngu'r mynediad i'r bryniau i lwybrau a hawliau tramwy eraill. Roedd nifer y ffermwyr oedd yn cyflawni hunanladdiad yn peri pryder hefyd a dylid sefydlu fforwm i glywed problemau ffermwyr;
- soniodd aelod o'r cyhoedd am yr angen am bolisi trafnidiaeth integredig gan gyfeirio at y trafferthion a gafodd wrth deithio rhwng de a gogledd Cymru ar drên.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau defnyddiol a dywedodd y byddai'r negeseuon yn cael eu cyfleu i'r Cynulliad.

**Ysgrifenyddiaeth** **Chwefror 2000**